YR EGLWYS YNG NGHYMRU

THE CHURCH IN WALES

GWASANAETHAU A DEFODAU

SERVICES AND CEREMONIES

GWASANAETHAU A DEFODAU
AR GYFER
GWYL CYFLWYNIAD CRIST YN Y DEML
(GWYL FAIR Y CANHWYLLAU),
DYDD MERCHER Y LLUDW,
YR WYTHNOS SANCTAIDD
A GWYLNOS Y PASG

NODIAD

Gellir defnyddio'r ddarpariaeth sydd yn y llyfr hwn yn yr Esgobaethau hynny lle mae'r Esgob yn caniatáu, ond nid yw'n orfodol.

GWASG YR EGLWYS YNG NGHYMRU

SERVICES AND CEREMONIES
FOR
THE FEAST OF THE PRESENTATION OF CHRIST
IN THE TEMPLE (CANDLEMAS),
ASH WEDNESDAY,
HOLY WEEK
AND THE EASTER VIGIL

NOTE

The provision contained in this book is permissive and not of obligation. It may be used in those Dioceses where it is authorised by the Bishop.

CHURCH IN WALES PUBLICATIONS

GŴYL CYFLWYNIAD CRIST YN Y DEML, A ELWIR HEFYD YN ŴYL FAIR Y CANHWYLLAU

Gellir dechrau'r Cymun Bendigaid gyda'r drefn hon

Y PARATOAD

PENLINIO

Yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Cyffeswn yn ostyngedig ein pechodau gerbron yr Hollalluog Dduw.

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol
yr ydym wedi pechu yn dy erbyn
ar feddwl, gair a gweithred,
ac yn yr hyn nas gwnaethom.
Yr ydym yn ddifrifol yn edifarhau ac mae'n ddrwg gennym
am ein holl bechodau.

Trugarha wrthym, drugarocaf Dad;
maddau inni'r hyn oll a aeth heibio;
a chaniatâ inni allu byth o hyn allan
dy wasanaethu a'th fodloni mewn newydd-deb buchedd,
er anrhydedd a gogoniant dy Enw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Dywed yr offeiriad:

Yr Hollalluog Dduw a drugarhao wrthych: maddau i chwi, a'ch gwared oddi wrth eich holl bechodau; eich cadarnhau a'ch nerthu ym mhob daioni; a'ch dwyn i fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y DEFODAU

SEFYLL

Hollalluog Dduw, ffynhonnell pob goleuni, a'th Fab Iesu Grist yn Oleuni i oleuo'r Cenhedloedd ac yn ogoniant i'th bobl Israel: Erfyniwn arnat fendithio'r + canhwyllau hyn a chaniatáu i ni sy'n ei anrhydeddu'r dydd hwn â goleuni canhwyllau gael ein goleuo byth gan ei bresenoldeb yn ein calonnau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi yn dragywydd. **Amen.**

Yn awr goleuir y canhwyllau.

Os yw'r canhwyllau i'w dosbarthu, gellir adrodd neu ganu'r Nunc Dimittis.

Goleuni i o/leuo'r · Cen/hedloedd: a go/goniant · i'th / bobl / Israel.
Yr awr hon, Arglwydd, y go/llyngi · dy / was: mewn tang/nefedd · yn / ôl dy / air.
Goleuni i o/leuo'r · Cen/hedloedd: a go/goniant · i'th / bobl / Israel.
Canys fy / llygaid · a / welodd: dy / iachaw/dwr/iaeth.
Goleuni i o/leuo'r · Cen/hedloedd: a go/goniant · i'th / bobl / Israel.
Yr hon a / bara/toaist: gerbron / wyneb · yr / holl / bobl;
Goleuni i o/leuo'r · Cen/hedloedd: a go/goniant · i'th / bobl / Israel.
I fod yn oleuni i o/leuo'r · Cen/hedloedd: ac yn o/goniant · i'th / bobl / Israel.
Goleuni i o/leuo'r · Cen/hedloedd: a go/goniant · i'th / bobl / Israel.
Gogoniant i'r Tad, /ac i'r / Mab: ac / i'r / Ysbryd / Glân;
Goleuni i o/leuo'r · Cen/hedloedd: a go/goniant · i'th / bobl / Israel.
Megis yr oedd yn y dechrau * y mae'r awr hon ac y / bydd yn / wastad: yn oes / oesoedd. / A/men.
Goleuni i o/leuo'r · Cen/hedloedd a go/goniant · i'th / bobl / Israel.

Gall gorymdaith ddilyn yma.

(Salmau priodol: 27, 84, 119 ad. 105-112, 122.
Emynau priodol: (Rhif yr emynau yn *Emynau'r Eglwys)*

Greawdwr nef a thir a môr	160
Dyrchafwn gân ag uchel lef	151
Cyn sylfaenu'r bydoedd mawrion	597
Chwi sy'n addef Ffydd yr Iesu	161
Arglwydd grasol, Frenin hedd	343
Cyn llunio'r byd	366)

Eir ymlaen â gwasanaeth y Cymun Bendigaid gyda'r Gloria in Excelsis.

Os bydd y bobl yn dal canhwyllau yn eu dwylo fe'u diffoddant wedi'r Efengyl.

GWASANAETH EDIFEIRWCH

Mae'r gwasanaeth hwn yn briodol i'w ddefnyddio ar Ddydd Mercher y Lludw. Gellir ei ddefnyddio ar adegau eraill yn ôl dewis y gweinidog.

Ar Ddydd Mercher y Lludw ac yn ystod y Garawys dywed y gweinidog: SEFYLL

Arfer yr Eglwys yw paratoi ar gyfer y Pasg trwy gadw'r Grawys yn dymor hunan-ddisgyblaeth ac edifeirwch. Yr ydym yn cofio y ceir maddeuant am bob pechod trwy edifeirwch a ffydd yng Nghrist Iesu. Gan hynny holwn ein hunain a chyffeswn ein pechodau, fel y derbyniwn faddeuant Duw a pharhau trwy ei ras mewn newydd-deb bywyd.

Ar adegau eraill dywed:

Ein dyletswydd yw cofio y ceir maddeuant am bob pechod trwy edifeirwch a ffydd yng Nghrist Iesu. Gan hynny holwn ein hunain a chyffeswn ein pechodau, fel y derbyniwn faddeuant Duw a pharhau trwy ei ras mewn newydd-deb bywyd.

Adrodded y gweinidog ddyletswyddau'r Cristion.
Ar ôl pob adran bydd tawelwch am ennyd i bawb holi ei hun; yna daw'r wersigl a'r ateb fel gweithred o edifeirwch.

Ein dyletswydd tuag at Dduw yw ei addoli ef fel yr unig wir Dduw, ei garu, ymddiried ynddo ac ufuddhau iddo, a dwyn eraill trwy dystiolaeth ein geiriau a'n gweithredoedd i'w wasanaethu ef.

Trugarha wrthyf, O Dduw, yn ôl dy drugarowgrwydd:

Yn ôl lliaws dy dosturiaethau, dilea fy anwireddau.

Ein dyletswydd tuag at Dduw yw peidio â gadael i unrhyw beth creëdig gymryd ei le, ond yn hytrach ddefnyddio ein hamser, ein doniau a'n meddiannau, fel rhai y bydd yn rhaid iddynt roi cyfrif iddo.

Trugarha wrthyf, O Dduw, yn ôl dy drugarowgrwydd:

Yn ôl lliaws dy dosturiaethau, dilea fy anwireddau.

Ein dyletswydd tuag at Dduw yw ei anrhydeddu mewn meddwl, gair a gweithred.

Golch fi'n llwyr ddwys oddi wrth fy anwiredd a glanha fi oddi wrth fy mhechod:

Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron.

Ein dyletswydd tuag at Dduw yw cadw Dydd yr Arglwydd at addoliad a gorffwys oddi wrth waith.

Golch fi'n llwyr ddwys oddi wrth fy anwiredd a glanha fi oddi wrth fy mhechod:

Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron.

Ein dyletswydd tuag at ein cymydog yw caru, parchu a chynorthwyho ein rheini, anrhydeddu'r Frenhines, ufuddiau i'r rhai sydd mewn awdurdod arnom ym mhob peth cyfreithlon a daionus, ac i gyflawni ein rhwymedigaethau fel dinasyddion.

Cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau a dilea fy holl anwireddau:

Crea galon lân ynof, O Dduw, ac adnewydda ysbryd uniawn o'm mewn.

Ein dyletswydd tuag at ein cymydog yw peidio â dolurio neb trwy air neu weithred, na dal dig na chas yn ein calon, hyrwyddo heddwch rhwng dynion a'i gilydd, bod yn gwrtais wrth bawb, ac ymddwyn yn garedig at holl greaduriaid Duw.

Cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau a dilea fy holl anwireddau:

Crea galon lân ynof, O Dduw, ac adnewydda ysbryd uniawn o'm mewn.

Ein dyletswydd tuag at ein cymydog yw bod yn lân ar feddwl, gair a gweithred, rheoli chwantau'r cnawd trwy nerth yr Ysbryd Glân sy'n trigo ynom, ac os gelwir ni i ystad priodas inni fyw'n ffyddlon yn yr ystad honno.

Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron:

Ac na chymer dy ysbryd sanctaidd oddi wrthyf.

Ein dyletswydd tuag at ein cymydog yw bod yn onest a theg ym mhob peth a wnawn, peidio â lladrata na thwyllo, a cheisio cyfiawnder, rhyddid a digonedd i bob dyn.

Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron:

Ac na chymer dy ysbryd sanctaidd oddi wrthyf.

Ein dyletswydd tuag at ein cymydog yw cadw ein tafod rhag celwydd, athrod a chwedleua niweidiol, a pheidio byth trwy ein distawrwydd â gadael i eraill gael eu condemnio ar gam.

Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth:

Ac â'th hael ysbryd cynnal fi.

Ein dyletswydd tuag at ein cymydog yw bod yn ddiolchgar ac yn haelionus, gwneud ein dyletswydd yn llawen, ac ymgadw rhag trachwant a chenfigen.

Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth:

Ac â'th hael ysbryd cynnal fi.

Arglwydd Iesu, trwy dy ddyfodiad i geisio ac i gadw dynol-ryw, trwy dy Ymgnawdoliad sanctaidd, a thrwy dy Groes a'th Ddioddefaint:

Gostwng ein calonnau i gyflawni dy ewyllys.

Trwy dy Atgyfodiad a'th esgyniad gogoneddus, a thrwy ddyfodiad yr Ysbryd Glân:

Gostwng ein calonnau i gyflawni dy ewyllys.

Trwy dy eiriolaeth barhaus, a thrwy dy bresenoldeb gwastadol gyda'th Eglwys:

Gostwng ein calonnau i gyflawni dy ewyllys.

(Gall Arnodiad Lludw ganlyn yn y dull yma:

Dywed yr offeiriad:

Hollalluog a thrugarocaf Dad, edrych ar dy bobl, a + sancteiddia'r lludw hwn yn arwydd y bydd i ni, o'i dderbyn yn ostyngedig ac edifeiriol, gael maddeuant am ein holl gamweddau; trwy haeddiannau dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

Bydded i'r offeiriad yn gyntaf nodi ei dalcen ei hun â'r lludw, ac yna dalcennau'r rhai sy'n bresennol, gan ddweud wrth bob un:

Cofia mai llwch ydwyt ac i'r llwch y dychweli. **Amen.)**

Fe ddywed ein Hiachawdwr Crist wrth bawb a wir ymchwel ato ef:

Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi. Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Gwrandewch beth a ddywed Sant Pawl:

Dyma air i'w gredu, sy'n teilyngu derbyniad llwyr: "Daeth Crist Iesu i'r byd i achub pechaduriaid."

Gwrandewch hefyd beth a ddywed Sant Ioan:

Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac fe faddeua, felly, i ni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder.

Cyffeswn i Dduw Hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân, ac yng ngŵydd holl gwmpeini nef, ein bod wedi pechu'n ddirfawr ar feddwl, gair a gweithred, trwy ein bai ni, ein bai ni ein hunain, ein bai mwyaf alaethus ni ein hunain. Gan hynny gweddïwn ar i Dduw Hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân, drugarhau wrthym.

Dywed yr offeiriad:

Yr Hollalluog Dduw a drugarhao wrthych: maddau i chwi, a'ch gwared oddi wrth eich holl bechodau; eich cadarnhau a'ch nerthu ym mhob daioni; a'ch dwyn i fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

A chyda'th ysbryd dithau.

Pan fydd y Cymun Bendigaid yn dilyn bydd yn dechrau â Cholect y Dydd

Os amgen:

Gweddïwn.

Caniatâ, Arglwydd, i ni dy weision sy'n cadw tymor y Grawys gael ein dwyn mewn purdeb calon a meddwl i gadw gŵyl atgyfodiad dy Fab, ac inni trwy dy ras gyfranogi ymhen y rhawg o lawenydd y Jerwsalem nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Neu, pan ddefnyddir y gwasanaeth ar achlysur ar wahân i'r Grawys:

Hollalluog Dduw, ffynnon pob doethineb, sy'n gwybod ein hanghenion cyn inni ofyn a'n hanwybodaeth wrth ofyn: Deisyfwn arnat dosturio wrth ein gwendid, a rhoddi inni'r pethau hynny na feiddiwn eu gofyn oherwydd ein hannheilyngdod, ac na fedrwn eu gofyn chwaith oherwydd ein dallineb, er teilyngdod dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gwyn fyd y rhai / perffaith · eu / ffordd:
y rhai a / rodiant · yng / nghyfraith · yr / Arglwydd.
Gwyn fyd y rhai a gadwant ei dystio/laethau / ef:
ac a'i ceisiant / ef â'u / holl / galon.
Y rhai hefyd ni / wnânt an/wiredd:
hwy a rodiant / yn ei / ffyrdd / ef.
Ti / a orch/mynnaist:
gadw / dy orch/mynion · yn / ddyfal.
O am gy/feirio · fy / ffyrdd:
i / gadw / dy / ddeddfau.
Yna ni'm / gwara/dwyddid:
pan edrychwn / ar dy / holl orch/mynion.
Clodforaf di ag un/iondeb / calon:
pan ddysgwyf farnedi/gaethau / dy gyf/iawnder.
Cadwaf / dy / ddeddfau:
O na / ad / fi yn / hollol.

Gogoniant i'r Tad, / ac i'r / Mab:
ac / i'r / Ysbryd / Glân;
Megis yr oedd yn y dechrau, * y mae'r awr hon, ac y / bydd yn / wastad:
yn oes / oesodd. / **A-/men.**

Dywed yr offeiriad:

Bendithied yr Arglwydd ni a chadwed ni;
dyrchafed yr Arglwydd lewyrch ei wyneb arnom,
a rhodded inni dangnefedd, yr awr hon a hyd byth bythoedd.
Amen.

YR WYTHNOS SANCTAIDD

SUL Y BLODAU

Yn y Cymun Bendigaid

Y PARATOAD

PENLINIO

Yn Enwi'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen.

Cyffeswn yn ostyngedig ein pechodau gerbron yr Hollalluog Dduw.

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol
yr ydym wedi pechu yn dy erbyn
ar feddwl, gair a gweithred,
ac yn yr hyn nas gwnaethom.
Yr ydym yn ddifrifol yn edifarhau ac mae'n ddrwg gennym
am ein holl bechodau.

Trugarha wrthym, drugarocaf Dad;
maddau inni'r hyn oll a aeth heibio;
a chaniatâ inni allu byth o hyn allan
dy wasanaethu a'th fodloni mewn newydd-deb buchedd,
er anrhydedd a gogoniant dy Enw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Dywed yr offeiriad:

Yr Hollalluog Dduw a drugarhao wrthych: maddau i chwi, a'ch gwared oddi wrth eich holl bechodau; eich cadarnhau a'ch nerthu ym mhob daioni; a'ch dwyn i fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;

A chyda'th ysbryd dithau.

Hollalluog a thragwyddol Dduw, bendithia'r canghennau (croesau) hyn, a chaniatâ i ni sy'n eu cario er anrhydedd i Grist ein Brenin a'n Gwaredwr ufuddhau ym mhob peth i'th ewyllys sanctaidd; trwyddo ef sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

Gellir canu salm, emyn neu anthem briodol tra dosberthir y palmwydd.

Gellir darllen yr Efengyl hon:

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl Sant Mathew.

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

MATHEW 21. 1-9

Pan ddaethant yn agos i Jerwsalem a chyrraedd Bethffage a Mynydd yr Olewydd, yna anfonodd Iesu ddau ddisgybl gan ddweud wrthynt, "Ewch i'r pentref sydd gyferbyn â chwi, ac yn syth fe gewch asen wedi ei rhwymo, ac ebol gyda hi. Gollyngwch hi a dewch â hi ataf. Ac os dywed rhywun rywbeth wrthych, dywedwch, 'Y mae ar y Meistr eu hangen'; a bydd yn eu rhoi ar unwaith." Digwyddodd hyn fel y cyflawnid y gair a lefarwyd trwy'r proffwyd: "Dywedwch wrth ferch Seion, 'Dyma dy frenin yn dyfod atat, yn addfwyn ac yn marchogaeth ar asen, ac ar ebol, llwdn anifail gwaith'." Aeth y disgyblion a gwneud fel y gorchmynnodd Iesu iddynt; daethant â'r asen a'r ebol ato, a rhoesant eu mentyll ar eu cefn, ac eisteddodd Iesu arnynt. Taenodd tyrfa fawr iawn eu mentyll ar y ffordd, ac yr oedd eraill yn torri canghennau o'r coed ac yn eu taenu ar y ffordd. Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a'r rhai o'r tu ôl yn llefain: "Hosanna i Fab Dafydd! Bendith ar yr hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!"

Moliant i ti, O Grist.

YR ORYMDAITH

Gellir canu'r emyn hwn yn ystod yr orymdaith:

Gogoniant, clod a moliant
A fyddo, Grist, i ti;
Adleisia plant dy Enw
Mewn sain Hosanna cu.

Tydi yw Brenin Israel,
Mab Dafydd ydwyt ti,
Yn Enw Duw yn dyfod,
Ein Brenin grasol ni.
Gogoniant, etc.

Cymdeithas yr Angylion
A'th fawl di yn y nef,
A'r holl greëdig bethau
A etyb ag un llef.
Gogoniant, etc.

Aeth pobol yr Hebreaid
O'th flaen â'r palmwydd glân;
A ninnau a offrymwn
Ein gweddi, mawl, a chân.
Gogoniant, etc.

I ti, cyn dy ddioddef,
Cyflwynent fawl a chlod;
Nyni yn awr a'th folwn
Yn Frenin uwch y rhod.
Gogoniant, etc.

Derbyniaist eu moliannau,
O derbyn yma'n awr
Weddïau dy ffyddloniaid,
Yn dirion, Frenin mawr.
Gogoniant, etc.

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

A chyda'th ysbryd dithau.

Gweddïwn.

Y Colect

Hollalluog a thragwyddol Dduw, a anfonaist dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, o'th dyner gariad at ddynion, i gymryd ein cnawd, ac i ddioddef angau ar y groes, fel y gallai pob dyn ddilyn esiampl ei ostyngeiddrwydd mawr: dyro inni allu dilyn esiampl ei ddioddefgarwch, a bod hefyd yn gyfrannog o'i atgyfodiad; trwy yr un Iesu Grist ein Harglywdd. **Amen.**

Secareia 9. 9-12

Bydd lawen iawn, ti ferch Seion; a chrechwena, ha ferch Jerwsalem: wele dy frenin yn dyfod atat: cyfiawn ac achubydd yw efe; y mae efe yn llariaidd, ac yn marchogaeth ar asyn, ac ar ebol llwdn asen. Torraf hefyd y cerbyd oddi wrth Effraim, a'r march oddi wrth Jerwsalem, a'r bwa rhyfel a dorrir: ac efe a lefara heddwch i'r cenhedloedd: a'i lywodraeth fydd o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd eithafoedd y ddaear. A thithau, trwy waed dy amod y gollyngais dy garcharorion o'r pydew heb ddwfr ynddo. Trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol; heddiw yr ydwyf yn dangos y talaf i ti yn ddauddyblyg.

Bendigedig yw'r hwn sydd yn dyfod yn Enw'r Arglwydd;
Achub a chymorth ni, atolygwn i ti, O Arglwydd.

PHILIPIAID 2. 5-11

Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu. Er ei fod ef erioed ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i ddal gafael ynddo, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd dynion. O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes. Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad.

SALM 45. 2-7

Tecach ydwyt na meibion dynion * tywalltwyd / gras · ar dy we/fusau: oherwydd hynny y'th fen/dithiodd / Duw yn · dra-/ gywydd.
Gwregysa dy gleddyf ar dy / glun O / Gadarn: â'th o/goniant / a'th / harddwch.
Ac yn dy harddwch marchoga yn llwyddiannus * oherwydd gwir-ionedd a lledneisrwydd / a chyf/iawnder: a'th ddeheulaw a / ddysg · i ti / bethau / ofnadwy.
Pobl a / syrthiant / danat: oherwydd dy saethau llymion yn glynu yng / nghalon · ge/lynion · y / Brenin.
Dy orsedd di O Dduw sydd / byth · ac yn dra/gywydd: teyrnwialen uniondeb yw teyrn/wialen · dy fren/hiniaeth / di.
✠Ceraist gyfiawnder a cha/seaist · ddryg/ioni: am hynny y'th eneiniodd Duw sef dy Dduw di * ag olew lla/wenydd · yn / fwy na'th · gy/feillion.

SEFYLL

Cyhoeddir Efengyl y Dioddefaint fel hyn: "Dioddefaint ein Harglwydd Iesu Grist yn ôl . . ."; mae'r atebion arferol ar ddechrau a diwedd yr Efengyl i'w hepgor.

Mae Efengyl y Dioddefaint wedi ei gosod allan yma fel y gellir ei defnyddio, os dymunir, gan nifer o ddarllenwyr: Ll – Llefarydd, C – Côr (a all fod yn nifer wedi eu dethol neu'r gynulleidfa i gyd), X – Christus, yn llefaru geiriau Crist, ac S – Synagoga sydd yn darllen y gwahanol leisiau unigol.

Ll. Dioddefaint ein Harglwydd Iesu Grist yn ôl Sant Mathew.

Ll. Pan ddaeth yn ddydd, cynllwyniodd yr holl brif offeiriaid a henuriaid y bobl yn erbyn Iesu i'w roi i farwolaeth. Rhwymasant ef a mynd ag ef ymaith a'i drosglwyddo i Pilat, y rhaglaw. Yna pan welodd Jwdas, ei fradychwr, fod Iesu wedi ei gondemnio, bu'n edifar ganddo ac aeth â'r deg darn arian ar hugain yn ôl at y prif offeiriaid a'r henuriaid. Dywedodd,

S. "Pechais trwy fradychu dyn dieuog."

Ll. Meddent hwy,

C. "Beth yw hynny i ni? Rhyngot ti a hynny."

Ll. A thaflodd Jwdas yr arian i lawr yn y deml ac ymadael; aeth ymaith, ac fe'i crogodd ei hun. Wedi iddynt dderbyn yr arian, dywedodd y prif offeiriaid,

S. "Nid yw'n gyfreithlon ei roi yn nhrysorfa'r deml, gan mai pris gwaed ydyw."

Ll. Ac wedi ymgynghori, prynasant Faes y Crochenydd â'r arian, fel mynwent i ddieithriaid. Dyna pam y gelwir y maes hwnnw hyd heddiw yn Faes y Gwaed. Felly y cyflawnwyd y gair a lefarwyd trwy Jeremeia'r proffwyd: "Cymerasant y deg darn arian ar hugain, pris y sawl y rhoddodd rhai o blant Israel bris arno, a'u gwario i brynu maes y crochenydd, fel y gorchmynnodd yr Arglwydd i mi." Safodd Iesu gerbron y rhaglaw; a holodd y rhaglaw ef:

S. "Ai ti yw Brenin yr Iddewon?"

Ll. Atebodd Iesu,

X. "Ti sy'n dweud hynny."

Ll. A phan gyhuddwyd ef gan y prif offeiriaid a'r henuriaid, nid atebodd ddim. Yna meddai Pilat wrtho,

S. "Onid wyt yn clywed faint o dystiolaeth y maent yn ei dwyn yn dy erbyn?"

Ll. Ond nid atebodd ef i gymaint ag un gair, er syndod mawr i'r rhaglaw. Ar yr ŵyl yr oedd y rhaglaw yn arfer rhyddhau i'r dyrfa un carcharor o'u dewis hwy. A'r pryd hwnnw yr oedd carcharor adnabyddus yn y ddalfa, o'r enw Barabbas. Felly, wedi iddynt ymgynnull, gofynnodd Pilat iddynt,

S. "Pwy a fynnwch i mi ei ryddhau i chwi, Barabbas neu Iesu a elwir y Meseia?"

Ll. Oherwydd gwyddai mai o genfigen y traddodasant ef. A thra oedd Pilat yn eistedd ar y brawdle anfonodd ei wraig neges ato, yn dweud,

S. "Paid ag ymyrryd â'r dyn cyfiawn yna, oherwydd cefais lawer o ofid mewn breuddwyd neithiwr o'i achos ef."

Ll. Ond perswadiodd y prif offeiriaid a'r henuriaid y tyrfaoedd i ofyn am ryddhau Barabbas a rhoi Iesu i farwolaeth. Atebodd y rhaglaw gan ofyn iddynt,

S. "Prun o'r ddau a fynnwch i mi ei ryddhau i chwi?"

Ll. Meddent hwy,

C. "Barabbas"

Ll. Gofynnodd Pilat iddynt,

S. "Beth, ynteu, a wnaf â Iesu a elwir y Meseia?"

Ll. Atebasant i gyd,

C. "Croeshoelier ef."

Ll. Meddai yntau,

S. "Ond pa ddrwg a wnaeth ef?"

Ll. Gwaeddasant hwythau yn uwch byth,

C. "Croeshoelier ef."

Ll. Pan welodd Pilat nad oedd dim yn tycio ond yn hytrach bod cynnwrf yn codi, cymerodd ddŵr, a golchodd ei ddwylo o flaen y dyrfa, a dweud,

S. "Yr wyf fi'n ddieuog o waed y dyn hwn; chwi fydd yn gyfrifol."

Ll. Ac atebodd yr holl bobl,

C. "Boed ei waed arnom ni ac ar ein plant."

Ll. Yna rhyddhaodd Pilat iddynt Barabbas, a thraddododd Iesu, ar ôl ei fflangellu, i'w groeshoelio. Yna cymerodd milwyr y rhaglaw Iesu i'r Praetoriwm a chynnull yr holl fintai o'i gwmpas. Wedi diosg ei ddillad, rhoesant glogyn ysgarlad amdano; plethasant goron o ddrain a'i gosod ar ei ben, a gwialen yn ei law dde. Aethant ar eu gliniau o'i flaen a'i watwar:

C. "Henffych well, Frenin yr Iddewon!"

Ll. Poerasant arno, a chymryd y wialen a'i guro ar ei ben. Ac wedi iddynt ei watwar, tynasant y clogyn oddi amdano a'i wisgo ef â'i ddillad ei hun, a mynd ag ef ymaith i'w groeshoelio. Wrth fynd allan daethant ar draws dyn o Gyrene o'r enw Simon, a gorfodi hwnnw i gario ei groes ef. Daethant i le a elwir Golgotha, hynny yw "Lle Penglog," ac yno rhoesant iddo i'w yfed win wedi ei gymysgu â bustl, ond ar ôl iddo ei brofi, gwrthododd ei yfed. Croeshoeliasant ef, ac yna rhanasant ei ddillad, gan fwrw

coelbren, ac eisteddasant yno i'w wylio. Uwch ei ben gosodwyd y cyhuddiad yn ei erbyn mewn ysgrifen: "Hwn yw Iesu, Brenin yr Iddewon." Yna croeshoeliwyd gydag ef ddau leidr, un ar y dde ac un ar y chwith. Yr oedd y rhai oedd yn mynd heibio yn ei gablu ef, yn ysgwyd eu pennau a dweud,

C. "Ti sydd am fwrw'r deml i lawr a'i hadeiladu mewn tridiau, achub dy hun, os Mab Duw wyt ti, a disgyn oddi ar y groes."

Ll. A'r un modd yr oedd y prif offeiriaid hefyd, ynghyd â'r ysgrifennyddion a'r henuriaid, yn ei watwar ac yn dweud,

C. "Fe achubodd eraill; ni all ei achub ei hun. Brenin Israel yn wir! Disgynned yn awr oddi ar y groes ac fe gredwn ynddo. Ymddiriedodd yn Nuw; boed i Dduw ei waredu yn awr, os yw â'i fryd arno, oherwydd dywedodd, 'Mab Duw ydwyf'."

Ll. Yr un modd, yr oedd hyd yn oed y lladron a groeshoeliwyd gydag ef yn ei wawdio. O ganol dydd, daeth tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn. A thua thri o'r gloch gwaeddodd Iesu â llef uchel,

X. "Eli, Eli, lema sabach-thani?"

Ll. Hynny yw,

X. "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?"

Ll. O glywed hyn, meddai rhai o'r sawl oedd yn sefyll yno,

C. "Y mae hwn yn galw ar Elias."

Ll. Ac ar unwaith fe redodd un ohonynt a chymryd ysbwng a'i lenwi â gwin sur a'i ddodi ar flaen gwialen a'i gynnig iddo i'w yfed. Ond yr oedd y lleill yn dweud,

C. "Gadewch inni weld a ddaw Elias i'w achub."

Ll. Gwaeddodd Iesu drachefn â llef uchel, a bu farw.

(Gellir cadw saib yma am ennyd.)

A dyma len y deml yn cael ei rhwygo yn ddwy o'r pen i'r gwaelod. Siglwyd y ddaear a holltwyd y creigiau; agorwyd y beddau ac atgyfodwyd cyrff llawer o'r saint oedd wedi huno. Ac ar ôl atgyfodiad Iesu, daethant allan o'u beddau a mynd i mewn i'r ddinas sanctaidd, ac fe'u gwelwyd gan lawer. Ond pan welodd y canwriad, a'r rhai oedd gydag ef yn gwylio Iesu, y daergryn a'r cwbl oedd yn digwydd, daeth ofn mawr arnynt a dywedasant,

C. "Yn wir, Mab Duw oedd hwn."

Yna bydd y Cymun Bendigaid yn dilyn yn y dull arferol.

LLUN, MAWRTH A MERCHER YN YR WYTHNOS SANCTAIDD

Y traddodiad yw cyhoeddi Efengyl y Dioddefaint fel hyn: "Dioddefaint ein Harglwydd Iesu Grist yn ôl Sant N." gan hepgor yr atebion o flaen ac ar ôl y darlleniad.

DYDD IAU CABLYD

Yn y Foreol a'r Hwyrol Weddi. *Y traddodiad yw hepgor y* Gloria Patri *ar ôl salmau a chantiglau Foreol a'r Hwyrol Weddi o'r Plygain ar Ddydd Iau Cablyd hyd y Gosber ar Noswyl y Pasg.*

Yn y Cymun Bendigaid. *Ar y dydd hwn mae i'r Cymun Bendigaid gymeriad gŵyl gan ei fod yn coffáu sefydliad y Swper Olaf. Mae defnyddio'r* Gloria in excelsis *felly'n briodol.*

Mae'n arferol i'r Esgob fendithio'r Olew Sanctaidd yn ystod y Cymun Bendigaid ar y dydd hwn.

Y Colectau

Hollalluog a thragwyddol Dduw, a anfonaist dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, o'th dyner gariad at ddynion, i gymryd ein cnawd, ac i ddioddef angau ar y groes, fel y gallai pob dyn ddilyn esiampl ei ostyngeiddrwydd mawr: dyro inni allu dilyn esiampl ei ddioddefgarwch, a bod hefyd yn gyfrannog o'i atgyfodiad; trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Fendigaid Arglwydd, a adewaist i ni goffadwriaeth o'th Ddioddefaint mewn Sacrament rhyfeddol: caniatâ inni felly barchu dirgeleddau sanctaidd dy Gorff a'th Waed, fel y canfyddwn yn wastad ynom ein hunain ffrwyth dy brynedigaeth di, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

Ecsodus 12. 21-27

Galwodd Moses am holl henuriaid Israel, ac a ddywedodd wrthynt. Tynnwch a chymerwch i chwi oen yn ôl eich teuluoedd, a lleddwch y Pasg. A chymerwch dusw o isop, a throchwch ef yn y gwaed a fyddo yn y cawg, a rhoddwch ar gapan y drws, ac ar y ddau ystlysbost, o'r gwaed a fyddo yn y cawg; ac nac aed neb ohonoch allan o ddrws ei dŷ hyd y bore. Oherwydd yr Arglwydd a dramwya i daro'r Eifftiaid: a phan welo efe y gwaed ar gapan y drws, ac ar y ddau ystlysbost, yna

yr Arglwydd a â heibio i'r drws, ac ni ad i'r dinistrydd ddyfod i mewn i'ch tai chwi i ddinistrio. A chwi a gedwch y peth hyn yn ddeddf i ti, ac i'th feibion yn dragywydd. A phan ddeloch i'r wlad a rydd yr Arglwydd i chwi, megis yr addawodd, yna cedwch y gwasanaeth hwn. A bydd, pan ddywedo eich meibion wrthych, Pa wasanaeth yw hwn gennych? Yna y dywedwch, Aberth Pasg yr Arglwydd ydyw, yr hwn a aeth heibio i dai meibion Israel yn yr Aifft, pan drawodd efe yr Eifftiaid, ac yr achubodd ein tai ni. Yna yr ymgrymodd y bobl, ac yr addolasant. A meibion Israel a aethant ymaith, ac a wnaethant megis y gorchmynasai yr Arglwydd wrth Moses ac Aaron; felly y gwnaethant.

Iachawdwr y byd, a'n prynaist trwy dy Groes a'th werthfawr Waed;
Achub a chymorth ni, atolygwn i ti, O Arglwydd.

1 Corinthiaid 11. 23-29

Oherwydd fe dderbyniais i oddi wrth yr Arglwydd, yr hyn hefyd a draddodais i chwi: i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymryd bara; ac wedi iddo ddiolch, fe'i torrodd, a dywedodd, "Hwn yw fy nghorff, sydd er eich mwyn chwi. Gwnewch hyn er cof amdanaf." Yr un modd hefyd fe gymerodd y cwpan, ar ôl swper, gan ddweud, "Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd, yn fy ngwaed i. Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef, er cof amdanaf." Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta'r bara hwn ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, hyd nes y daw. Felly, pwy bynnag fydd yn bwyta'r bara neu'n yfed cwpan yr Arglwydd yn annheilwng, bydd yn euog o halogi corff a gwaed yr Arglwydd. Bydded i ddyn ei holi ei hunan, ac felly bwyta o'r bara ac yfed o'r cwpan. Oherwydd y mae'r sawl sydd yn bwyta ac yn yfed, os nad yw'n dirnad y corff, yn bwyta ac yn yfed barn arno'i hun.

Salm 23

Yr Arglwydd / yw fy / Mugail: ni / bydd / eisiau / arnaf.
Efe a wna i mi orwedd mewn por/feydd / gwelltog: efe a'm tywys ger/llaw y / dyfroedd / tawel.
Efe a / ddychwel · fy / enaid: efe a'm harwain ar hyd llwybrau cyf/iawnder · er / mwyn ei / enw.
Ie pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau nid / ofnaf / niwed: canys yr wyt ti gyda mi * dy wi/alen · a'th / ffon a'm · cy/surant.
‡Ti a arlwyi ford ger fy mron yng ngŵydd fy / ngwrthwy/nebwyr: iraist fy mhen ag / olew; · fy / ffiol · sydd / lawn.
Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl / ddyddiau · fy / mywyd: a phreswyliaf yn nhŷ yr / Arglwydd / yn dra/gywydd.

Ar drothwy Gŵyl y Pasg, yr oedd Iesu'n gwybod fod ei awr wedi dod, iddo ymadael â'r byd hwn a mynd at y Tad. Yr oedd wedi caru'r rhai oedd yn eiddo iddo yn y byd, ac fe'u carodd hyd yr eithaf. Yn ystod swper, pan oedd y diafol eisoes wedi gosod yng nghalon Jwdas, mab Simon Iscariot, y bwriad i'w fradychu ef, dyma Iesu, ac yntau'n gwybod fod y Tad wedi rhoi pob peth yn ei ddwylo ef, a'i fod wedi dod oddi wrth Dduw a'i fod yn mynd at Dduw, yn codi o'r swper ac yn rhoi ei ddillad o'r neilltu, a chymryd tywel a'i glymu am ei ganol. Yna tywalltodd ddŵr i'r badell, a dechreuodd olchi traed y disgyblion, a'u sychu â'r tywel oedd am ei ganol. Daeth at Simon Pedr yn ei dro, ac meddai ef wrtho, "Arglwydd, a wyt ti am olchi fy nhraed i?" Atebodd Iesu ef: "Ni wyddost ti ar hyn o bryd beth yr wyf fi am ei wneud, ond fe ddoi i wybod ar ôl hyn." Meddai Pedr wrtho, "Ni chei di olchi fy nhraed i byth." Atebodd Iesu ef, "Os na chaf dy olchi di, nid oes lle i ti gyda mi." "Arglwydd," meddai Simon Pedr wrtho, "nid fy nhraed yn unig, ond golch fy nwylo a'm pen hefyd." Dywedodd Iesu wrtho, "Y mae'r dyn sydd wedi ymolchi drosto yn lân i gyd, ac nid oes arno angen golchi dim ond ei draed. Ac yr ydych chwi yn lân, ond nid pawb ohonoch." Oherwydd gwyddai pwy oedd am ei fradychu. Dyna pam y dywedodd, "Nid yw pawb ohonoch yn lân." Wedi iddo olchi eu traed, ac ymwisgo a chymryd ei le unwaith eto, gofynnodd iddynt, "A ydych yn deall beth yr wyf wedi ei wneud i chwi? Yr ydych chwi'n fy ngalw i yn 'Athro' ac yn 'Arglwydd', a hynny'n gwbl briodol, oherwydd dyna wyf fi. Os wyf fi, felly, a minnau'n Arglwydd ac yn Athro, wedi golchi eich traed chwi, fe ddylech chwithau hefyd olchi traed eich gilydd. Yr wyf wedi rhoi esiampl i chwi; yr ydych chwithau i wneud yn union fel yr wyf fi wedi gwneud i chwi."

Diosg yr Allor. Tra symudir yr addurniadau a'r llieiniau oddi ar yr allor, gellir canu neu ddweud Salm 88 heb y Gloria Patri. *Wedi gorffen y diosg dyweded y Gweinidog:*

> Y mae amser yn dod, yn wir y mae wedi dod, pan gewch eich gwasgaru bob un i'w le ei hun, a'm gadael i ar fy mhen fy hun. Ac eto, nid wyf ar fy mhen fy hun, oherwydd y mae'r Tad gyda mi.

Â'r gynulleidfa allan mewn distawrwydd.

DYDD GWENER Y GROGLITH

Y Foreol Weddi. *Os dywedir y Foreol Weddi'n union o flaen Litwrgia'r Dydd, bydd yn gorffen gyda'r Credo.*

Y Litwrgia. *Dechreuer y Litwrgia â'r Litani (Adrannau 1 a III) a diweddu â'r Litani Leiaf.*

Gweddïwn.

Y Colectau

Hollalluog Dduw, erfyniwn arnat edrych yn rasol ar dy deulu yma, y bu'n fodlon gan ein Harglwydd Iesu Grist gael ei fradychu drosto, a'i roddi yn nwylo dynion anwir, a dioddef angau ar y groes, yr hwn sy'n awr yn byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, byth yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

Hollalluog a thragwyddol Dduw, sydd trwy dy Ysbryd yn llywodraethu ac yn sancteiddio holl gorff yr Eglwys: derbyn ein hymbiliau a'n gweddïau a offrymwn ger dy fron dros bob gradd o ddynion yn dy lân Eglwys, fel y gall pob aelod ohoni, yn ei alwedigaeth a'i weinidogaeth, dy wasanaethu di'n gywir ac yn dduwiol; trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. **Amen.**

Drugarog Dduw, gwneuthurwr pob dyn, nad wyt yn casáu dim a wnaethost, nac yn dymuno marwolaeth pechadur, eithr yn hytrach ddychwelyd ohono a byw: deisyfwn arnat drugarhau wrth bawb nad ydynt yn cyffesu Crist a groeshoeliwyd. Symud ymaith oddi wrthynt bob anwybodaeth, caledwch calon, a dirmyg ar dy Air; ac felly dwg hwynt adref i'th gorlan, fel y byddant hwy a ninnau'n un praidd dan Un Bugail, Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

Eseia 53. 3-12

Dirmygedig yw, a diystyraf o'r gwŷr; gŵr gofidus, a chynefin â dolur: ac yr oeddem megis yn cuddio ein hwynebau oddi wrtho: dirmygedig oedd, ac ni wnaethom gyfrif ohono. Diau efe a gymerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau: eto ni a'i cyfrifasom ef wedi ei faeddu, ei daro gan Dduw, a'i gystuddio. Ond efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef: a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni. Nyni oll a grwydrasom fel defaid; troesom bawb i'w ffordd ei hun: a'r Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd. Efe a orthrymwyd, ac efe a gystuddiwyd, ac nid agorai ei enau: fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i

cneifiai, felly nid agorai yntau ei enau. O garchar ac o farn y cymerwyd ef: a phwy a draetha ei oes ef? canys efe a dorrwyd o dir y rhai byw; rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl. Ac efe a wnaeth ei fedd gyda'r rhai anwir, a chyda'r cyfoethog yn ei farwolaeth; am na wnaethai gam, ac nad oedd twyll yn ei enau. Eithr yr Arglwydd a fynnai ei ddryllio ef; efe a'i clwyfodd: pan osodo efe ei enaid yn aberth dros bechod, efe a wêl ei had, efe a estyn ei ddyddiau; ac ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law ef. O lafur ei enaid y gwêl, ac y diwellir: fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei wybodaeth; canys efe a ddwg eu hanwireddau hwynt. Am hynny y rhannaf iddo ran gyda llawer, ac efe a ranna yr ysbail gyda'r cedyrn: am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth: ac efe a gyfrifwyd gyda'r troseddwyr; ac efe a ddug bechodau llaweroedd, ac a eiriolodd dros y troseddwyr.

Salm 22. 1-8

Fy Nuw, fy Nuw, pa/ham y'm · gwr/thodaist?: paham yr ydwyt mor bell oddi wrth fy iachaw/dwriaeth · a / geiriau · fy / llefain?
Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd ac / ni wran/dewi: y nos hefyd ac / nid oes / osteg · i / mi.
Ond ty/di wyt / sanctaidd: O dydi yr hwn wyt yn cyfan/heddu · ym / moliant / Israel.
Ein tadau a obeith/iasant / ynot: gobeithiasant / a gwa/redaist / hwynt.
Arnat ti y llefasant ac a/chubwyd / hwynt: ynot yr ymddiriedasant * ac / nis · gwara/dwyddwyd / hwynt.
A minnau pryf ydwyf ac / nid / gŵr: gwarthrudd / dynion · a / dirmyg · y / bobl.
Pawb a'r a'm gwelant / a'm gwat/warant: llaesant wefl * ys-/ gydwant / ben · gan ddy/wedyd,
Ymddiriedodd yn yr Arglwydd * gwa/reded / ef: achubed ef gan ei / fod yn / dda / ganddo.

Hebreaid 10. 1-10 a 19-23

Oherwydd cysgod sydd gan y Gyfraith o'r pethau da sy'n dod, nid gwir ddelw y dirweddau hynny; ac ni all hi o gwbl, drwy aberthau sy'n cael eu hoffrymu, yr un rhai flwyddyn ar ôl blwyddyn, ddwyn yr addolwyr i berffeithrwydd am byth. Petasai hynny'n bosibl, oni fuasai'r addolwyr wedi peidio â'u hoffrymu, gan na fuasai mwyach ymwybyddiaeth o bechodau gan addolwyr oedd wedi eu puro un waith am byth? Ond y mae yn yr aberthau goffâd bob blwyddyn am bechodau; oherwydd y mae'n amhosibl i waed teirw a geifr dynnu ymaith bechodau. Dyna pam y mae ef, wrth ddod i'r byd, yn dweud: "Aberth ac offrwm, ni fynnaist mohonynt, ond yr wyt wedi paratoi corff i mi. Offrymau llosg ac offrymau dros bechod nid ymhyf-

rydaist ynddynt. Yna dywedais, 'Dyma fi wedi dod, fel y mae'n ysgrifenedig amdanaf yn y sgrôl, i wneud dy ewyllys di, O Dduw'." Y mae'n dweud, i ddechrau, "Aberthau ac offrymau, ac offrymau llosg ac offrymau dros bechod, ni fynnaist mohonynt ac nid ymhyfrydaist ynddynt." Yn ôl y Gyfraith y mae'r rhain yn cael eu hoffrymu. Yna dywedodd, "Dyma fi wedi dod i wneud dy ewyllys di." Y mae'n diddymu'r peth cyntaf er mwyn sefydlu'r ail. Trwy'r ewyllys honno yr ydym wedi ein sancteiddio, gan fod corff Iesu Grist, un waith am byth, wedi ei offrymu. Felly, frodyr, gan fod gennym hyder i fynd i mewn i'r cysegr drwy waed Iesu, ar hyd ffordd newydd a byw y mae ef wedi ei hagor i ni drwy'r llen, hynny yw, trwy ei gnawd ef; a chan fod gennym offeiriad mawr ar dŷ Duw, gadewch inni nesáu â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, â'n calonnau wedi eu taenellu'n lân oddi wrth gydwybod ddrwg, a'n cyrff wedi eu golchi â dŵr glân. Gadewch inni ddal yn ddiwyro at gyffes ein gobaith, oherwydd gallwn ddibynnu ar yr hwn a roddodd yr addewid.

SALM 22. 1-2, 9-11 a 14-19

Fy Nuw fy Nuw pa/ham y'm · gwr/thodaist: paham yr ydwyt mor bell oddi wrth fy iachaw/dwriaeth · a / geiriau · fy / llefain?
Fy Nuw llefain yr ydwyf y dydd ac / ni wran/dewi: y nos hefyd ac / nid oes / osteg · i / mi.
Canys ti a'm / tynnaist · o'r / groth: gwnaethost i mi obeithio pan / oeddwn · ar / fronnau · fy / mam.
Arnat ti y'm / bwriwyd · o'r / bru: o groth fy / mam fy / Nuw / ydwyt.
Nac ymbellha oddi wrthyf |* oherwydd cy/fyngder · sydd / agos: canys / nid oes / cynor/thwywr.
Fel dwfr y'm tywalltwyd * a'm hesgyrn oll a / ym · waha/nasant: fy nghalon sydd fel cwyr * hi a / doddodd · yng / nghanol · fy / mherfedd.
Fy nerth a wywodd fel priddlestr * a'm tafod a lynodd wrth / daflod · fy / ngenau: ac i / lwch / angau · y'm / dygaist.
Canys cŵn a'm cylchynasant * cynulleidfa y drygionus a'm / hamgyl/chasant: trywa/nasant · fy / nwylo · a'm / traed.
Gallaf gyfrif fy / holl / esgyrn: y maent yn / tremio · ac yn / edrych / arnaf.
Y maent yn rhannu fy nillad / yn eu / mysg: ac ar fy / ngwisg yn / bwrw / coelbren.
Ond tydi Arglwydd nac / ymbell/ha: fy nghadernid / brysia · i'm / cynor/thwyo.

Ni wneir yr atebion arferol o flaen ac ar ôl yr Efengyl.

Mae Efengyl y Dioddefaint wedi ei threfnu yma i'w defnyddio, os dymunir, gan nifer o ddarllenwyr: Ll – Llefarydd, C – Côr (a all fod yn nifer wedi eu dethol neu'r gynulleidfa i gyd), X – Christus, yn llefaru geiriau Crist, ac S – Synagoga, sydd yn darllen y gwahanol leisiau unigol.

Cyhoeddir Efengyl y Dioddefaint fel hyn:

Ll. Dioddefaint ein Harglwydd Iesu Grist yn ôl Sant Ioan.

IOAN 19. 1-30

Ll. Cymerodd Pilat Iesu, a'i fflangellu. A phlethodd y milwyr goron o ddrain a'i gosod ar ei ben ef, a rhoi mantell borffor amdano. Ac yr oeddent yn dod ato ac yn dweud,

C. "Henffych well, Frenin yr Iddewon!"

Ll. . . . ac yn ei gernodio. Daeth Pilat allan eto, ac meddai wrthynt,

S. "Edrychwch, 'rwy'n dod ag ef allan atoch, er mwyn ichwi wybod nad wyf yn cael unrhyw achos yn ei erbyn."

Ll. Daeth Iesu allan, felly, yn gwisgo'r goron ddrain a'r fantell borffor. A dywedodd Pilat wrthynt,

S. "Dyma'r dyn."

Ll. Pan welodd y prif offeiriaid a'r swyddogion ef, gwaeddasant,

C. "Croeshoelia, croeshoelia."

Ll. Meddai Pilat wrthynt,

S. "Cymerwch ef eich hunain a chroeshoeliwch, oherwydd nid wyf fi'n cael achos yn ei erbyn."

Ll. Atebodd yr Iddewon ef,

C. "Y mae gennym ni Gyfraith, ac yn ôl y Gyfraith honno fe ddylai farw, oherwydd fe'i gwnaeth ei hun yn Fab Duw."

Ll. Pan glywodd Pilat y gair hwn, ofnodd yn fwy byth. Aeth yn ei ôl i mewn i'r Praetorium, a gofynnodd i Iesu,

S. "O ble'r wyt ti'n dod?"

Ll. Ond ni roddodd Iesu ateb iddo. Dyma Pilat felly yn gofyn iddo,

S. "Onid wyt ti am siarad â mi? Oni wyddost fod gennyf awdurdod i'th ryddhau di, a bod gennyf awdurdod hefyd i'th groeshoelio di?"

Ll. Atebodd Iesu ef,

X. "Ni fyddai gennyt ddim awdurdod arnaf fi oni bai ei fod wedi ei roi i ti oddi uchod. Gan hynny, y mae'r hwn a'm trosglwyddodd i ti yn euog o bechod mwy."

Ll. O hyn allan, ceisiodd Pilat ei ryddhau ef. Ond yr oedd yr Iddewon yn dal i weiddi:

C. "Os wyt yn rhyddhau'r dyn hwn, nid cyfaill i Gesar mohonot. Y mae pob un sy'n ei wneud ei hun yn frenin yn gwrthryfela yn erbyn Cesar."

Ll. Pan glywodd Pilat y geiriau hyn, daeth â Iesu allan, ac eisteddodd ar y brawdle yn y lle a elwir Y Palmant (yn Hebraeg, Gabbatha). Dydd Paratoad y Pasg oedd hi, tua hanner dydd. A dywedodd Pilat wrth yr Iddewon,

S. "Dyma eich brenin."

Ll. Gwaeddasant hwythau,

C. "Ymaith ag ef, ymaith ag ef, croeshoelia ef."

Ll. Meddai Pilat wrthynt,

S. "A wyf i groeshoelio eich brenin chwi?"

Ll. Atebodd y prif offeriaid,

C. "Nid oes gennym frenin ond Cesar."

Ll. Yna traddododd Pilat Iesu iddynt i'w groeshoelio. Felly cymerasant Iesu. Ac aeth allan, gan gario'i groes ei hun, i'r fan a elwir Lle'r Benglog (yn Hebraeg fe'i gelwir Golgotha). Yna croeshoeliasant ef, a dau arall gydag ef, un ar bob ochr a Iesu yn y canol. Ysgrifennodd Pilat deitl, a'i osod ar y groes; dyma'r hyn a ysgrifennwyd: "Iesu o Nasareth, Brenin yr Iddewon." Darllenodd llawer o'r Iddewon y teitl hwn, oherwydd yr oedd y fan lle croeshoeliwyd Iesu yn agos i'r ddinas. Yr oedd y teitl wedi ei ysgrifennu mewn Hebraeg, Lladin a Groeg. Yna meddai prif offeiriaid yr Iddewon wrth Pilat,

C. "Paid ag ysgrifennu, 'Brenin yr Iddewon', ond yn hytrach, 'Dywedodd ef, 'Brenin yr Iddewon wyf fi'."

Ll. Atebodd Pilat,

S. "Yr hyn a ysgrifennais a ysgrifennais."

Ll. Wedi iddynt groeshoelio Iesu, cymerodd y milwyr ei ddillad ef a'u rhannu'n bedair rhan, un i bob milwr. Cymerasant ei fantell hefyd; yr oedd hon yn ddiwnïad, wedi ei gweu o'r pen yn un darn. A meddai'r milwyr wrth ei gilydd,

C. "Peidiwn â'i rhwygo hi, gadewch inni fwrw coelbren amdani, i benderfynu pwy a'i caiff hi."

Ll. Felly y cyflawnwyd yr Ysgrythur sy'n dweud: "Rhanasant fy millad yn eu plith eu hunain, a bwrw coelbren ar fy ngwisg." Felly y gwnaeth y milwyr. Ond yn ymyl croes Iesu yr oedd ei fam ef yn sefyll gyda'i chwaer, Mair gwraig Clopas, a Mair Magdalen. Pan welodd Iesu ei fam, felly, a'r disgybl yr oedd yn ei garu yn sefyll yn ei hymyl, meddai wrth ei fam,

X. "Wraig, dyma dy fab di."

Ll. Yna dywedodd wrth y disgybl,

X. "Dyma dy fam di."

Ll. Ac o'r awr honno, cymerodd y disgybl hi i mewn i'w gartref. Ar ôl hyn yr oedd Iesu'n gwybod fod pob peth bellach wedi ei orffen, ac er mwyn i'r Ysgrythur gael ei chyflawni dywedodd,

X. "Y mae arnaf syched."

Ll. Yr oedd llestr ar lawr yno, yn llawn o win sur, a dyma hwy'n dodi ysbwng wedi ei lenwi â'r gwin yma, ar ddarn o hysop, a'i godi at ei wefusau. Yna, wedi iddo gymryd y gwin, dywedodd Iesu,

X. "Gorffennwyd."

Ll. Gwyrodd ei ben, a rhoi i fyny ei ysbryd.

(Gellir cadw saib yma am ennyd.)

Yna, gan ei bod yn ddydd Paratoad, gofynnodd yr Iddewon i Pilat am gael torri coesau'r rhai a groeshoeliwyd, a chymryd y cyrff i lawr, rhag iddynt ddal i fod ar y groes ar y Saboth, oherwydd yr oedd y Saboth hwnnw'n uchel-ŵyl. Felly daeth y milwyr, a thorri coesau'r naill a'r llall, a groeshoeliwyd gyda Iesu. Ond pan ddaethant at Iesu a gweld ei fod ef eisoes yn farw, ni thorasant ei goesau. Ond fe drywanodd un o'r milwyr ei ystlys ef â phicell, ac ar unwaith, dyma waed a dŵr yn llifo allan. Y mae'r un a welodd y peth wedi dwyn tystiolaeth i hyn, ac y mae ei dystiolaeth ef yn wir. Y mae hwnnw'n gwybod ei fod yn dweud y gwir, a gallwch chwithau felly gredu. Digwyddodd hyn er mwyn i'r Ysgrythur gael ei chyflawni: "Ni thorrir yr un o'i esgyrn". Ac y mae'r Ysgrythur hefyd yn dweud, mewn lle arall: "Edrychant ar yr hwn a drywanwyd ganddynt."

Bydd y Bregeth a'r Ymbiliad yn dilyn Efengyl y Dioddefaint. Gellir hepgor yr Ymbiliad, a defnyddio'n lle hynny Adran II o'r Litani.

DEFOSIYNAU GERBRON Y GROES

Os bu gorchudd dros y groes yn ystod y Grawys neu Dymor y Dioddefaint fe'i dadorchuddir yn awr.

Defnyddier un o'r ffurfiau canlynol:

I

Dywed yr offeiriad:

Wele'r Groes yr hoeliwyd Gwaredwr y byd arni:
Deuwch ac addolwn.

Cenir neu dywedir yr anthemau traddodiadol hyn yn y ffurf hon neu ar ryw ffurf arall.

O fy mhobl, pa beth a wneuthum i ti, ac ym mha beth y'th flinais? Tystiolaetha i'm herbyn. Oblegid dwyn ohonof di o wlad yr Aifft: paratoaist Groes i'th Waredwr.

Sanctaidd Dduw, Sanctaidd a nerthol, Sanctaidd ac anfeidrol, trugarha wrthym.

Oblegid arwain ohonof di trwy'r anialwch ddeugain mlynedd, a'th borthi di â'r manna, a'th ddwyn di i wlad dda: paratoaist Groes i'th Waredwr.

Sanctaidd Dduw, Sanctaidd a nerthol, Sanctaidd ac anfeidrol, trugarha wrthym.

Pa beth mwy a allaswn ei wneuthur drosot ti a'r nas gwneuthum? Myfi, yn wir, a'th blennais di, O fy ngwinllan, â ffrwythau teg, a thi a aethost yn chwerw iawn i mi, canys finegr yn gymysg â bustl a roddaist i mi, pan oedd syched arnaf, a thrywenaist â gwaywffon ystlys dy Waredwr.

Sanctaidd Dduw, Sanctaidd a nerthol, Sanctaidd ac anfeidrol, trugarha wrthym.

Yna bydd Salm 67 yn dilyn, heb y Gloria Patri. *Cenir neu dywedir yr anthem yma o flaen y Salm ac ar ei hôl.*

Mawrygwn, Arglwydd, dy groes, a molwn a gogoneddwn dy atgyfodiad sanctaidd; oblegid trwy'r groes daeth llawenydd i'r holl fyd.

Duw a drugarhao wrthym ac / a'n ben/dithio: a thy/wyned · ei / wyneb / arnom.
Fel yr adwaener dy / ffordd · ar y / ddaear: a'th iachawdwriaeth y/mhlith yr / holl gen/hedloedd.
Molianned y bobl / di O / Dduw: molianned yr / holl / bobl · dy/di.
Llawenhaed y cenhedloedd a / byddant / hyfryd: canys ti a ferni y bobl yn uniawn * ac a lywodraethi y cen/hedloedd / ar y / ddaear.
Molianned y bobl / di O / Dduw: molianned yr / holl / bobl · dy/di.
Yna y ddaear a / rydd ei / ffrwyth: a Duw sef ein / Duw ni / a'n ben/dithia.
Duw / a'n ben/dithia: a holl derfynau y / ddaear · a'i / hofnant ef.

Cenir yr emyn hwn yn llawn neu'n rhannol.

Cân fy nhafod, am yr ornest,
Gornest ogoneddus iawn;
Ac uwch arwydd Croes yr Iesu
Bloeddia'r fuddugoliaeth lawn;
Ceidwad byd a'i rhoes ei hunan,
Gan orchfygu un prynhawn.

Pan o'r diwedd daeth cyflawnder
Amser gosodedig Duw,
Wedi'i anfon oddi uchod
Ganed Ceidwad dynol-ryw.
Ac o Fair Fendigaid Forwyn
Gyda ni y daeth i fyw.

Wedi treulio deg ar hugain
O flynyddoedd glân ei oes,
Oen y nef a'i rhydd ei hunan,
O'i wir fodd i ddioddef gloes;
Ac, i dalu pridwerth cyflawn,
Codir ef ar bren y Groes.

Profodd boenau a gwaradwydd,
Hoelion dur a gwayw-ffon;
Ei gorff sanctaidd a drywanwyd,
Dŵr a gwaed a ddaeth o'i fron;
Daear, môr, y sêr, a bydoedd
Olchir yn y ryfedd don.

RHAN 2

Ti yw'r tecaf o'r holl brennau
  Yn y goedwig, ffyddlon Groes;
Mewn un llwyn prydferthach blodau,
  Purach ffrwyth na dail nid oes;
Mwyn yw'r Pren, a mwyn yr hoelion,
  Ddeil yr Aberth dan ei loes.

Plyg dy gangau, Bren ardderchog,
  Lleddfa d'anian ennyd awr;
Dod o'r neilltu dy gyndynrwydd,
  Er mwyn cynnal uwch y llawr,
Mewn tynerwch ac esmwythder,
  Dirion Gorff y Brenin mawr.

Ti yn unig gaed yn deilwng
  I ddal Pridwerth mawr y byd,
Fel yr Arch yn dangos porthladd
  I'r long-ddrylliog hil i gyd.
Llifodd Gwaed yr Oen diniwed
  Arnat, fel rhyw ennaint drud.

Ar ddiwedd pob rhan gellir canu'r fawlgan hon:

Boed i'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd,
Un Duw hynod, diwahân,
Mewn gorfoledd, bob gwir foliant,
A gogoniant byth ar gân;
Dros holl oesoedd tragwyddoldeb
Seiner clod i'w Enw glân. **Amen.**

Terfyna'r gwasanaeth mewn distawrwydd.

NEU

II

Wrth ddadorchuddio'r groes:

Dyma ddydd y groes,
dydd buddugoliaeth.

Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol.

Dywedodd yr Iesu, Os myn neb ddyfod ar fy ôl i, ymwaded ag ef hun, a chyfoded ei groes, a chanlyned fi. Canys pwy bynnag a ewyllysio gadw ei fywyd a'i cyll, a phwy bynnag a gollo ei fywyd o'm plegid i a'i caiff.

Arglwydd Dduw ein Tad,
caniatâ inni ystyried anghenion pobl eraill
ac arfer tosturi Iesu Grist:

Dad, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi;

Caniatâ inni ddileu pob ymffrost a balchder
ac arfer gostyngeiddrwydd Iesu Grist:

Dad, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi;

Caniatâ ein rhyddhau oddi wrth ddicter
ac arfer amynedd Iesu Grist:

Dad, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi;

Caniatâ inni ymwrthod â phob chwerwder a digofaint
ac arfer maddeuant Iesu Grist:

Dad, yn dy drugaredd.
Gwrando ein gweddi;

Ac inni ym mhob peth a wnawn
gael ein llanw â chariad Iesu Grist.

Arglwydd Grist, a groeshoeliwyd drosom,
cymorth bob un ohonom i garu fel y ceraist ti,
i fyw fel y buost ti fyw,
i fod yn gymydog i'n cyd-ddynion yn eu hangen,
fel y buost ti yn dy drugaredd yn gymydog i ni
a dioddef a marw drosom.

Gofynnwn hyn yn dy enw. Amen.

Terfyna'r gwasanaeth mewn distawrwydd.

NEU

III

Wrth ddardorchuddio'r groes:

Dyma ddydd y groes,
dydd buddugoliaeth.

Dduw nerthol,
dyrchafwn ein calonnau a molwn di
am allu diderfyn dy gariad yn Iesu Grist.

Am na pheidiodd dy garu
hyd yn oed pan oedd ei ddisgyblion wedi ffoi
ac angau yn ei wynebu:

am na pheidiodd garu eraill
hyd yn oed pan hoeliwyd ef ar y groes:

Â'n holl galon a'n meddwl
Diolchwn i ti, Arglwydd.

Am na allai gwaetha dyn
yn rhoddi'r Iesu i farwolaeth
sefyll yn ffordd dy gariad:

am iti ddangos inni nerth dy gariad
trwy ei gyfodi ef o farwolaeth:

Â'n holl galon a'n meddwl
Diolchwn i ti, Arglwydd.

Am ein bod trwy ei farwolaeth a'i gyfodiad drachefn
yn gwybod fod dy gariad yn ddigon cryf
i barhau i garu hyd ddiwedd amser:

am ein bod yn gwybod yn sicr
fod yn rhaid i'th gariad orchfygu yn y diwedd:

Â'n holl galon a'n meddwl
Diolchwn i ti, Arglwydd.

Iesu, mab Duw, ceraist ni ac aberthaist dy hun drosom. Na ato Duw inni ymffrostio mewn dim ond dy groes. Croeshoelier ni gyda thi, rhyddhaer ni oddi wrth hunanoldeb, a rhodder inni brofi rhyddid plant Duw.

Terfyna'r gwasanaeth mewn distawrwydd.

GWYLNOS Y PASG

Nodyn Rhagarweiniol:

Gwasanaeth cyntaf Dydd y Pasg yw'r Wylnos, pan gedwir hi. Fe'i cynhelir ar adeg cyfleus rhwng machlud haul dydd Sadwrn yr Wythnos Fawr a chodiad haul Fore'r Pasg.

Mae'r Wylnos Basg fel arfer yn cynnwys pedair rhan:

1. *Gwasanaeth Goleuni*
2. *Litwrgia'r Gair*
3. *Bedydd, Conffyrmasiwn; neu Adnewyddu Addunedau Bedydd*
4. *Y Cymun Bendigaid*

I ddiacon y perthyn y fraint o ddwyn y Gannwyll Basg i'w lle, a chanu'r Exultet.

Diffoddir holl oleuadau'r eglwys.

Dywed yr offeiriad:

Garedigion yng Nghrist: Ar y noson sancteiddiolaf hon, pan aeth ein Harglwydd drwodd o angau i fywyd, mae'r Eglwys yn gwahodd ei phobl drwy'r holl fyd i ddod ynghyd a gwylio a gweddïo. Dyma Basg ein Harglwydd, a thrwy wrando ei air a gweinyddu ei ddirgeleddau cawn gyfranogi o'i fuddugoliaeth ef dros angau a byw byth gydag ef yn Nuw.

Yna cyneuir y tân a'i fendithio.

Gweddïwn.

O Dad, yr ydym yn gyfranogion o oleuni dy ogoniant trwy dy Fab, Goleuni'r byd. Sancteiddia'r tân newydd hwn, ac ennyn ynom obaith newydd. Pura ein meddyliau trwy'r ŵyl Basg hon, a dwg ni yn y diwedd i wledd y goleuni tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Yna gellir darllen:

ESEIA 60. 1-3, 15, 18-20

Cyfod, llewyrcha; canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat. Canys wele, tywyllwch a orchuddia y ddaear, a'r

fagddu y bobloedd: ond arnat ti y cyfyd yr Arglwydd, a'i ogoniant a welir arnat. Cenhedloedd hefyd a rodiant at dy oleuni, a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy gyfodiad. Lle y buost yn wrthodedig, ac yn gas, ac heb gyniweirydd trwot, gwnaf di yn ardderchowgrwydd tragwyddol, ac yn llawenydd i'r holl genedlaethau. Ni chlywir mwy sôn am drais yn dy wlad, na distryw na dinistr yn dy derfynau: eithr ti a elwi dy fagwyrydd yn Iachawdwriaeth, a'th byrth yn foliant. Ni bydd yr haul i ti mwyach yn oleuni y dydd, a'r lleuad ni oleua yn llewyrch i ti: eithr yr Arglwydd fydd i ti yn oleuni tragwyddol, a'th Dduw yn ogoniant i ti. Ni fachluda dy haul mwyach, a'th leuad ni phalla: oherwydd yr Arglwydd fydd i ti yn oleuni tragwyddol, a dyddiau dy alar a ddarfyddant.

Goleuir y Gannwyll Basg o'r tân newydd-gyneuedig; yna mae'r diacon, neu os na bydd diacon, y gweinyddwr, gan ddwyn y Gannwyll yn arwain yr orymdaith i'r gangell, gan sefyll deirgwaith a chanu neu ddweud:

Goleuni Crist,
Diolch fo i Dduw.

Os dosbarthwyd canhwyllau i'r gynulleidfa, fe'u goleuir o'r Gannwyll Basg.

Yna gosodir y Gannwyll Basg ar ei chanhwyllbren.

Wedyn gellir goleuo'r canhwyllau ar yr allor ac yna ganhwyllau a lampau eraill yn yr eglwys o'r Gannwyll Basg.

Exultet:

Yn awr llawenyched nef a daear ym muddugoliaeth ein Brenin.
Gwybyddent hwy fod tywyllwch y byd wedi ei fwrw ymaith.
Llawenyched yr Eglwys yn y Goleuni a gyfododd drachefn
a dadseinied yr adeilad hwn gan foliannau ei phobl.

Dyma'r noson y gwaredir pawb drwy'r byd sy'n credu yng Nghrist oddi wrth ddrygioni'r amser presennol hwn ac o gysgod angau, a'u hadfer i ras a'u gwneud yn gyfrannog o sancteiddrwydd Duw.

Dyma'r noson y datodwyd rhwymau marwolaeth ac yr atgyfododd Crist yn fuddugoliaethus o'r bedd.

Dyma'r noson yr unir nef a daear ac adfer dyn i gymundeb â Duw: y noson y bwrir ymaith weithredoedd y tywyllwch a dwyn pechod ymaith;
y noson y cyfodir y rhai a syrthiodd, ac y darostyngir gallu'r nerthol.

Gan hynny, O Dad Sanctaidd, ar y noson gysegredig hon gweddïwn ar i ti dderbyn ein diolch a'n mawl am lawenydd Atgyfodiad Crist, ac am y gobaith newydd y mae'n ei ddwyn i bob dyn.

Caniatâ fod i ni a'th holl bobl ffyddlon gael ein cyfarwyddo a'n diogelu gan dy nerth a'th gariad di-feth, a chadw Gŵyl y Pasg mewn tangnefedd, a chyda sêl newydd fynd allan i ddwyn y Newyddion Da i'r holl genhedloedd, fel y gorchmynnwyd inni gan ein Harglwydd atgyfodedig, dy Fab Iesu Grist, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, byth heb ddiwedd. **Amen.**

LITWRGIA'R GAIR

Dywed yr offeiriad:

Garedigion yng Nghrist, gwrandawn yn awr y dystiolaeth am weithredoedd achubol Duw mewn hanes, a'i waith yn anfon ei Fab ei hun yng nghyflawnder yr amser yn Waredwr inni; a gweddïwn ar i Dduw ddwyn pob un ohonom i gyflawn waredigaeth.

Darllenir dwy o leiaf o'r llithoedd canlynol, a'r llith o Ecsodus yn un ohonynt bob amser. Ar ôl pob llith gellir canu'r Salm neu'r Cantigl a restrir. Gellir cadw ysbaid o ddistawrwydd cyn dweud y Colect.

Hanes Creadigaeth y Byd

GENESIS 1. 1-4, 26-31a

Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. A'r ddaear oedd afluniaidd a gwag, a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfynder, ac Ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd. A Duw a ddywedodd, "Bydded goleuni," a goleuni a fu. A Duw a welodd y goleuni, mai da oedd: a Duw a wahanodd rhwng y goleuni a'r tywyllwch. Duw hefyd a ddywedodd, "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain: ac arglwyddiaethant ar bysg y môr, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar yr anifail, ac ar yr holl ddaear, ac ar bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear." Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef: yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt. Duw hefyd a'u bendigodd hwynt, a Duw a ddywedodd wrthynt, "Ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwch y ddaear, a darostyngwch hi; ac arglwyddiaethwch ar bysg y môr, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar bob peth byw a ymsymudo ar y ddaear." A Duw a ddywedodd, "Wele, mi a roddais i chwi bob llysieuyn yn

hadu had, yr hwn sydd ar wyneb yr holl ddaear, a phob pren yr hwn y mae ynddo ffrwyth pren yn hadu had, i fod yn fwyd i chwi. Hefyd i bob bwystfil y ddaear, ac i bob ehediad y nefoedd, ac i bob peth a ymsymudo ar y ddaear, yr hwn y mae einioes ynddo, y bydd pob llysieuyn gwyrdd yn fwyd'': ac felly y bu. A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele, da iawn ydoedd.

Salm 36. 5-10

Dy drugaredd Arglwydd sydd / hyd y / nefoedd: a'th wir/ionedd / hyd y · cy/mylau.
Fel mynyddoedd cedyrn y mae dy gyfiawnder * dyfnder mawr yw dy / farne·di/gaethau: dyn ac a/nifail · a / gedwi · di / Arglwydd.
Mor werthfawr yw dy dru/garedd · O / Dduw!: am hynny yr ymddiried meibion / dynion · dan / gysgod · dy a/denydd.
Llawn ddigonir hwynt â / braster · dy / dŷ: ac ag afon dy hy-/ frydwch · y di/odi / hwynt.
Canys gyda thi y mae / ffynnon · y / bywyd: yn dy oleuni / di y / gwelwn · o/leuni.
Estyn dy drugaredd i'r / rhai a'th · ad/waenant: a'th gyfiawnder i'r / rhai / uniawn · o / galon.

Gweddïwn.

Hollalluog Dduw, a greaist y natur ddynol mor rhyfeddol, a'i hadfer yn fwy rhyfeddol byth: dyro i ni gael cyfranogi o fywyd dwyfol yr hwn a'i darostyngodd ei hun er mwyn cyfranogi o'n dynoliaeth ni, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gwaredigaeth Israel yn y Môr Coch

Ecsodus 14. 10-15.1

Pan nesaodd Pharo, meibion Israel a godasant eu golwg; ac wele yr Eifftiaid yn dyfod ar eu hôl; a hwy a ofnasant yn ddirfawr: a meibion Israel a waeddasant ar yr Arglwydd. A dywedasant wrth Moses, Ai am nad oedd beddau yn yr Aifft, y dygaist ni i farw yn yr anialwch? Paham y gwnaethost fel hyn â ni, gan ein dwyn allan o'r Aifft? Onid dyma y peth a lefarasom wrthyt yn yr Aifft, gan ddywedyd, Paid â ni, fel y gwasanaethom yr Eifftiaid? canys gwell fuasai i ni wasanaethu'r Eifftiaid na marw yn yr anialwch. A Moses a ddywedodd wrth y bobl, Nac ofnwch; sefwch, ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd, yr hwn a wna efe i chwi heddiw; oblegid yr Eifftiaid y

rhai a welsoch chwi heddiw, ni chewch eu gweled byth ond hynny. Yr Arglwydd a ymladd drosoch; am hynny tewch chwi â sôn. A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Paham y gweiddi arnaf? dywed wrth feibion Israel am gerdded rhagddynt. A chyfod dithau dy wialen, ac estyn dy law ar y môr, a hollta ef: a meibion Israel a ânt trwy ganol y môr ar dir sych. Wele, fi, ie myfi a galedaf galon yr Eifftiaid, fel y delont ar eu hôl hwynt: a mi a ogoneddir ar Pharo, ac ar ei holl fyddin, ar ei gerbydau ef, ac ar ei farchogion. A'r Eifftiaid a gânt wybod mai myfi yw'r Arglwydd, pan y'm gogoneddir ar Pharo, ar ei gerbydau, ac ar ei farchogion.

Ac angel Duw, yr hwn oedd yn myned o flaen byddin Israel, a symudodd, ac a aeth o'u hôl hwynt; a'r golofn niwl a aeth ymaith o'u tu blaen hwynt, ac a safodd o'u hôl hwynt. Ac efe a ddaeth rhwng llu yr Eifftiaid a llu Israel; ac yr ydoedd yn gwmwl ac yn dywyllwch i'r Eifftiaid, ac yn goleuo y nos i Israel: ac ni nesaodd y naill at y llall ar hyd y nos.

A Moses a estynnodd ei law ar y môr: a'r Arglwydd a yrrodd y môr yn ei ôl, trwy ddwyreinwynt cryf ar hyd y nos, ac a wnaeth y môr yn sychdir, a holltwyd y dyfroedd. A meibion Israel a aethant trwy ganol y môr ar dir sych: a'r dyfroedd oedd yn fur iddynt, o'r tu deau, ac o'r tu aswy. A'r Eifftiaid a erlidiasant, ac a ddaethant ar eu hôl hwynt; sef holl feirch Pharo, a'i gerbydau, a'i farchogion, i ganol y môr. Ac ar yr wyliadwriaeth fore yr Arglwydd a edrychodd ar fyddin yr Eifftiaid trwy'r golofn dân a'r cwmwl, ac a derfysgodd fyddin yr Eifftiaid. Ac efe a dynnodd ymaith olwynion eu cerbydau; ac yr oeddynt yn gyrru yn drwm: fel y dywedodd yr Eifftiaid, Ffown oddi wrth Israel; oblegid yr Arglwydd sydd yn ymladd drostynt hwy yn erbyn yr Eifftiaid.

A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Estyn dy law ar y môr; fel y dychwelo'r dyfroedd ar yr Eifftiaid, ar eu cerbydau, ac ar eu marchogion. A Moses a estynnodd ei law ar y môr: a dychwelodd y môr cyn y bore i'w nerth; a'r Eifftiaid a ffoesant yn ei erbyn ef: a'r Arglwydd a ddymchwelodd yr Eifftiaid yng nghanol y môr. A'r dyfroedd a ddychwelasant, ac a orchuddiasant gerbydau, a marchogion, a holl fyddin Pharo, y rhai a ddaethant ar eu hôl hwynt i'r môr: ni adawyd ohonynt gymaint ag un. Ond meibion Israel a gerddasant ar dir sych yng nghanol y môr: a'r dyfroedd oedd yn fur iddynt, ar y llaw ddeau, ac ar y llaw aswy. Felly yr Arglwydd a achubodd Israel y dydd hwnnw o law yr Eifftiaid: a gwelodd Israel yr Eifftiaid yn feirw ar fin y môr. A gwelodd Israel y grymuster mawr a wnaeth yr Arglwydd yn erbyn yr Eifftiaid: a'r bobl a ofnasant yr Arglwydd, ac a gredasant i'r Arglwydd, ac i'w was ef Moses.

Yna y canodd Moses a meibion Israel y gân hon i'r Arglwydd, ac a lefarasant, gan ddywedydd, Canaf i'r Arglwydd; canys gwnaeth yn rhagorol iawn: taflodd y march a'i farchog i'r môr.

ECSODUS 15. 1-6, 11-13, 17-18

Canaf i'r Arglwydd * canys gwnaeth yn rha/gorol / iawn: taflodd y / march a'i / farchog · i'r / môr.

Fy nerth a'm / cân · yw yr / Arglwydd: ac y mae efe yn / iachaw-/ dwriaeth / i mi.

Efe yw fy Nuw * efe a ogo/neddaf / fi: Duw fy nhad / mi a'i · dyr-/ chafaf / ef.

Yr Arglwydd / sydd ry/felwr: yr / Arglwydd / yw ei / enw.

Efe a daflodd gerbydau Pharo a'i fyddin / yn y / môr: ei gapteiniaid dewisol a / foddwyd · yn y / môr / coch.

Y dyfnderau a'u / toesant / hwy: disgy/nasant · i'r / gwaelod · fel / carreg.

Dy ddeheulaw, Arglwydd, sydd ar/dderchog · o / nerth: a'th ddeheulaw / Arglwydd · a / ddrylliodd · y / gelyn.

Pwy sydd debyg i ti y/mhlith y / duwiau?: pwy fel tydi yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd * yn ofnadwy mewn moliant * yn / gwneuthur / rhyfe/ddodau?

Estynnaist / dy dde/heulaw: a / llyncodd · y / ddaear / hwynt.

Arweiniaist yn dy drugaredd y bobl y / rhai a · wa/redaist: yn dy nerth y tywysaist hwynt i a/nheddle / dy sanc/teiddrwydd.

Ti a'u dygi hwynt i mewn ac a'u / plenni / hwynt: ym / mynydd · dy / eti/feddiaeth;

Y lle a wnaethost, O Arglwydd, yn a/nheddle · i / ti: y cysegr, Arglwydd, a / gadarn/haodd · dy / ddwylo.

† Yr Arglwydd a deyrnasa byth ac / yn dra/gywydd.

A/men ac / A/men.

Gweddïwn.

Arglwydd Dduw, a waredaist Israel o gaethiwed yr Aifft trwy iddynt groesi'r Môr Coch, dyro i'r holl bobloedd trwy fedydd gael gwaredigaeth oddi wrth bechod a chael bywyd newydd yn yr Ysbryd Glân; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Calon newydd ac ysbryd newydd

ESEIA 55. 1-5 neu 1-11

O deuwch i'r dyfroedd, pob un y mae syched arno, ie, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwytewch; ie, deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian ac heb werth. Paham y gweriwch arian am yr hyn nid yw fara? a'ch llafur am yr hyn nid yw yn digoni? gan wrando

gwrandewch arnaf fi, a bwytewch yr hyn sydd dda; ac ymhyfryded eich enaid mewn braster. Gogwyddwch eich clust, a deuwch ataf; gwrandewch, a bydd byw eich enaid: a mi a wnaf gyfamod tragwyddol â chwi, sef sicr drugareddau Dafydd. Wele, rhoddais ef yn dyst i'r bobl, yn flaenor ac yn athro i'r bobloedd. Wele, cenedl nid adwaeni a elwi, a chenhedloedd ni'th adwaenai di a red atat, er mwyn yr Arglwydd dy Dduw, ac oherwydd Sanct Israel: canys efe a'th ogoneddodd. Ceisiwch yr Arglwydd, tra y galler ei gael ef; gelwch arno, tra fyddo yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, oherwydd efe a arbed yn helaeth. Canys nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd. Canys fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi. Canys fel y disgyn y glaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrha y ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r heuwr, a bara i'r bwytawr; felly y bydd fy ngair, yn hwn a ddaw o'm genau: ni ddychwel ataf yn wag; eithr efe a wna yr hyn a fynnwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid.

Salm 42. 1-5

Fel y brefa yr hydd am yr a/fonydd / dyfroedd: felly yr hiraetha fy enaid am/danat / ti O / Duw.

Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y / Dduw / byw: pa bryd y deuaf ac yr ymdda/ngosaf · ger/bron / Duw?

Fy nagrau oedd fwyd i mi / ddydd a / nos: tra dywedant wrthyf bob dydd * Pa / le y / mae dy / Dduw?

Tywalltwn fy enaid ynof pan gofiwn hynny * canys aethwn gyda'r / gynu/lleidfa: cerddwn gyda hwynt i dŷ Dduw * mewn sain cân a moliant * fel / tyrfa · yn / cadw / gŵyl.

† Paham fy enaid y'th ddarostyngir * ac yr ymder/fysgi / ynof?: gobeithia yn Nuw * oblegid moliannaf ef eto * am iachaw-/dwriaeth / ei wy/nepryd.

Gweddïwn

Hollalluog Dduw, a greaist bob peth trwy nerth dy Air, ac wyt yn adnewyddu'r ddaear â'th Ysbryd: dyro i'th bobl ddŵr y bywyd fel na sychedant mwy, a byw ohonynt i'th ogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Eseciel 37. 1-14

Bu llaw yr Arglwydd arnaf, ac a'm dug allan yn ysbryd yr Arglwydd, ac a'm gosododd yng nghanol dyffryn, a hwnnw oedd yn llawn esgyrn. Ac efe a wnaeth i mi fyned heibio iddynt o amgylch ogylch: ac wele hwynt yn aml iawn ar wyneb y dyffryn; wele hefyd, sychion iawn oeddynt. Ac efe a ddywedodd wrthyf, "Ha fab dyn, a fydd byw yr esgyrn hyn?" A mi a ddywedais, "O Arglwydd Dduw, ti a'i gwyddost." Ac efe a ddywedodd wrythyf, "Proffwyda am yr esgyrn hyn, a dywed wrthynt, 'O esgyrn sychion, clywch air yr Arglwydd'." Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrth yr esgyrn hyn; "Wele fi yn dwyn anadl i'ch mewn, fel y byddoch byw. Giau hefyd a roddaf arnoch, a pharaf i gig gyfodi arnoch, gwisgaf chwi hefyd â chroen, a rhoddaf anadl ynoch: fel y byddoch byw, ac y gwypoch mai myfi yw yr Arglwydd."

Yna y proffwydais fel y'm gorchmynasid; ac fel yr oeddwn yn proffwydo, bu sŵn, ac wele gynnwrf, a'r esgyrn a ddaethant ynghyd, asgwrn at ei asgwrn. A phan edrychais, wele, cyfodasai giau a chig arnynt, a gwisgasai croen amdanynt; ond nid oedd anadl ynddynt. Ac efe a ddywedodd wrthyf, "Proffwyda tua'r gwynt, proffwyda, fab dyn, a dywed wrth y gwynt. Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; 'O anadl, tyred oddi wrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw'." Felly y proffwydais fel y'm gorchmynasid; a'r anadl a ddaeth ynddynt, a buant fyw, a safasant ar eu traed, yn llu mawr iawn.

Yna y dywedodd wrthyf, "Ha fab dyn, yr esgyrn hyn ydynt dŷ Israel oll: wele, dywedant, 'Ein hesgyrn a wywasant, a'n gobaith a gollodd; torrwyd ni ymaith o'n rhan ni.' Am hynny proffwyda, a dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; 'Wele fi yn agori eich beddau, fy mhobl, codaf chwi hefyd o'ch beddau, a dygaf chwi i dir Israel. A chewch wybod mai myfi yw yr Arglwydd, pan agorwyf eich beddau, a phan gyfodwyf chwi i fyny o'ch beddau, fy mhobl; ac y rhoddwyf fy ysbryd, ac y byddoch byw, ac y gosodwyf chwi yn eich tir eich hun: yna y cewch wybod mai myfi yr Arglwydd a leferais, ac a wneuthum hyn, medd yr Arglwydd'."

Salm 30

Mawrygaf di O Arglwydd * canys dyr/chefaist / fi: ac ni lawen-/ heaist · fy nge/lynion · o'm / plegid.

Arglwydd fy Nuw / llefais / arnat: a / thithau / a'm hia/cheaist.

† Arglwydd, dyrchefaist fy / enaid · o'r / bedd: cedwaist fi yn fyw rhag / disgyn · o/honof · i'r / pwll.

Cenwch i'r Arglwydd ei / saint / ef: a chlodforwch wrth goffa-/ dwriaeth · ei sanc/teiddrwydd / ef.

Canys ennyd fechan y bydd yn ei lid * yn ei fodlonrwydd / y mae / bywyd: dros brynhawn yr erys wylofain * ac erbyn y /bore · y / bydd gor/foledd.

Ac mi a ddywedias / yn fy / llwyddiant: Ni'm / syflir / yn dra-/ gywydd.

O'th ddaioni Arglwydd y gosodaist gryfder / yn fy / mynydd: cuddiaist dy / wyneb · a / bum hel/bulus.

Arnat ti/Arglwydd · y / llefais: ac â'r / Arglwydd / yr ym/biliais.

Pa fudd sydd yn fy ngwaed pan ddis/gynnwyf · i'r / ffos?: a glodfora y llwch di? * a fy/nega · e/fe dy · wir/ionedd?

Clyw Arglwydd a thrugar/ha / wrthyf: Arglwydd bydd / gynor/ thwywr · i / mi.

Troaist fy ngalar yn lla/wenydd · i / mi: diosgaist fy sachwisg a gwre/gysaist · fi / â lla/wenydd;

Fel y cano fy ngogoniant i ti / ac na / thawo: O Arglwydd fy Nuw yn dra/gwyddol / y'th fol/iannaf.

Gweddïwn.

Hollalluog Dduw, a'n dygaist trwy dy Fab, Iesu Grist, allan o bechod i gyfiawnder, o angau i fywyd: dyro i ni sydd wedi'n selio â'th Ysbryd Glân yr ewyllys a'r gallu i gyhoeddi ei fywyd atgyfodedig ef i'r holl fyd, yr hwn sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

Ymgasglu pobl Dduw

Seffaneia 3. 12-20

Gadawaf ynot hefyd bobl druain dlodion, ac yn enw yr Arglwydd y gobeithiant hwy. Gweddill Israel ni wna anwiredd, ac ni ddywedant gelwydd; ac ni cheir yn eu geneuau dafod twyllodrus: canys hwy a

borant ac a orweddant, ac ni bydd a'u tarfo. Merch Seion, cân; Israel, crechwena; merch Jerwsalem, ymlawenycha a gorfoledda a'th holl galon. Tynnodd yr Arglwydd ymaith dy farnau, bwriodd allan dy elynion: yr Arglwydd, brenin Israel sydd yn dy ganol, nid ofni ddrwg mwyach. Y dydd hwnnw y dywedir wrth Jerusalem, "Nac ofna;" wrth Seion, "Na laesed dy ddwylo. Yr Arglwydd dy Dduw yn dy ganol di sydd gadarn: efe a achub, efe a lawenycha o'th blegid gan lawenydd; efe a lonydda yn ei gariad, efe a ymddigrifa ynot dan ganu. Casglaf y rhai sydd brudd am y gymanfa, y rhai sydd ohonot, i'r rhai yr oedd ei gwaradwydd yn faich. Wele, mi a ddifethaf yr amser hwnnw bawb a'th flinant: ac a achubaf y gloff, a chasglaf y wasgaredig: ac a'u gosodaf yn glodfawr ac yn enwog yn holl dir eu gwarth. Yr amser hwnnw y dygaf chwi drachefn, yr amser y'ch casglaf: canys gwnaf chwi yn enwog ac yn glodfawr ymysg holl bobl y ddaear, pan ddychwelwyf eich caethiwed o flaen eich llygaid, medd yr Arglwydd."

Salm 98

Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd * canys efe a wnaeth / bethau / rhyfedd: ei ddeheulaw a'i fraich sanctaidd a barodd / iddo / fuddu-/ goliaeth.

Hysbysodd yr Arglwydd ei / iachaw/dwriaeth: datguddiodd ei gyfiawnder yng / ngolwg / y cen/hedloedd.

Cofiodd ei drugaredd a'i wirionedd i / dŷ / Israel: holl derfynau y ddaear a welsant iachaw/dwriaeth · ein / Duw / ni.

Cenwch yn llafar i'r Arglwydd yr / holl / ddaear: llefwch ac / ym · lawen/hewch a / chenwch.

Cenwch i'r Arglwydd / gyda'r / delyn: gyda'r / delyn · a / llef / salm.

Ar utgyrn a / sain / cornet: cenwch yn llafar o / flaen yr / Arglwydd · y / Brenin.

Rhued y / môr · a'i gyf/lawnder: y byd a'r / rhai a / drigant · o'i / fewn.

Cured y lli/feiriaint · eu / dwylo: a chydganed y my/nyddoedd · o / flaen yr / Arglwydd.

Canys y mae yn dyfnod i / farnu · y / ddaear: efe a farna y byd â chyfiawnder a'r / bobloedd / ag un/iondeb.

Gweddïwn.

O Dduw, y Gallu digyfnewid a'r Goleuni tragwyddol, edrych yn raslon ar dy holl Eglwys, y ddirgelwch ryfeddol a sanctaidd honno; a thrwy dawel weithrediad dy ragluniaeth ddiorffwys cyflawna waith iachawdwriaeth dyn; a dyro i'r holl fyd brofi a gweld atgyfodi'r pethau a fwriwyd i lawr, adnewyddu'r pethau a heneiddiodd, a dwyn pob peth i berffeithrwydd trwy'r Un y daeth pob peth i fod trwyddo ef, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

LITWRGIA BEDYDD

Pan fo'r Esgob yn bresennol ac ymgeiswyr i'w conffyrmio, gweinyddir y Conffyrmasiwn yn y fynedfa i'r Gangell.

Pan na bo Bedydd na Chonffyrmasiwn, fe arwain yr Offeiriad y bobl mewn Adnewyddiad o'u Haddunedau Bedydd.

AIL-DDATGAN ADDUNEDAU

Rhufeiniaid 6. 1-11

Beth, ynteu, sydd i'w ddweud? A ydym i barhau mewn pechod, er mwyn i ras amlhau? Ddim ar unrhyw gyfrif! Pobl ydym a fu farw i bechod; sut y gallwn ni, mwyach, fyw ynddo? A ydych heb ddeall fod pawb ohonom a fedyddiwyd i Grist Iesu wedi ein bedyddio i'w farwolaeth? Trwy'r bedydd hwn i farwolaeth, fe'n claddwyd gydag ef, fel, megis yr atgyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd. Oherwydd os daethom ni yn un ag ef trwy farwolaeth ar lun ei farwolaeth ef, fe'n ceir hefyd yn un ag ef trwy atgyfodiad ar lun ei atgyfodiad ef. Fe wyddom fod yr hen ddyn oedd ynom wedi ei groeshoelio gydag ef, er mwyn dirymu ein natur ddynol bechadurus, ac i'n cadw rhag bod, mwyach, yn gaethweision i bechod. Oherwydd y mae'r dyn sydd wedi marw wedi ei ryddhau oddi wrth bechod. Ac os buom ni farw gyda Christ, yr ydym yn credu y cawn fyw gydag ef hefyd, oherwydd y mae'n sicr na fydd marw mwyach i'r Crist sydd wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw. Collodd marwolaeth ei harglwyddiaeth arno ef. Yn gymaint ag iddo farw, i bechod y bu farw, un waith am byth; yn gymaint â'i fod yn fyw, i Dduw y mae'n byw. Felly, yr ydych chwithau i'ch cyfrif eich hunain fel rhai sy'n farw i bechod, ond sy'n fyw i Dduw, yng Nghrist Iesu.

Dyma'r noson y cyfodwyd ein Harglwydd a'n Gwaredwr o'r meirw. Gan gofio geiriau Sant Paul fod rhaid i ni a fedyddiwyd gyfrif ein hunain yn farw i bechod ac yn fyw i Dduw yng Nghrist Iesu, gadewch inni gyffesu ein pechodau ac ail-ddatgan yr addunedau difrif a wnaethom mewn Glân Fedydd pan fu inni ymwrthod â Satan a'i holl weithredoedd, ac addunedu i wasanaethu Duw yn ffyddlon yn ei Eglwys Lân Gatholig.

A ydych yn ail-ddatgan eich bod yn ymwrthod â'r Diafol ac yn adnewyddu eich ymrwymiad i Iesu Grist?

Ydwyf.

A wnewch chwi ddyfalbarhau yn ffordd cyfiawnder, a phryd bynnag y syrthiwch i bechod, edifarhau a dychwelyd at yr Arglwydd?

Gwnaf, a Duw yn gymorth imi.

A ydych yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad, a'ch gwnaeth chwi a'r holl fyd; ac yn ei Fab Iesu Grist, a'ch gwaredodd chwi a'r holl ddynol-ryw; ac yn yr Ysbryd Glân, sy'n eich sancteiddio chwi a holl etholedigion Duw?

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried felly.

A wnewch chwi ufuddhau i ewyllys sanctaidd Duw a'i orchmynion ef, a dyfalbarhau yn nysgeidiaeth yr apostolion ac yn y gymdeithas, yn y torri bara ac yn y gweddïau?

Gwnaf, a Duw yn gymorth imi.

A wnewch chwi trwy air ac esiampl gyhoeddi Newyddion Da Duw yng Nghrist gan geisio ei wasanaethu trwy garu eich cymydog fel chwi eich hun?

Gwnaf, a Duw yn gymorth imi.

Yr Hollalluog Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, a roes inni fywyd newydd trwy'r dŵr a'r Ysbryd Glân, a hefyd faddeuant o'n pechodau, a'n cadwo ni, trwy ei ras, yn y bywyd tragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. **Amen.**

Pan na bo Cymun Bendigaid, terfynir y gwasanaeth trwy ganu'r Te Deum *(adnodau 1-16) neu emyn.*

Pan ddefnyddir y gwasanaeth hwn ar Ddydd y Pasg, fe ddechrau â'r Gwasanaeth Goleuni a diwedda â'r Exultet.

Pan fo Cymun Bendigaid fe ddechrau â'r Gloria in Excelsis *gydag Efengyl y dydd yn dilyn.*

The Revised Psalter is used by permission of the Registrars of the Convocations of Canterbury and York.
The Revised Standard Version is used by permission of the Division of Christian Education of the National Council of Churches in the United State of America.

© *Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1983*

© *Church in Wales Publications 1983*